



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Tim Amddiffyn Iechyd

Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llawr 4, Rhif 2 Capital Quarter,
Stryd Tyndall, Caerdydd CF10 4BZ

Health Protection Team

Public Health Wales, Floor 4, Number 2 Capital Quarter,
Tyndall Street, Cardiff, CF10 4BZ

5th Mawrth 2018

Ffôn/Tel: 0300 00 300 32 · 02920 442981

Gwefan/Web: www.iechydcyhoedduscymru.org

www.publichealthwales.org

At:

Meithrinfeydd cyn-ysgol

Ysgolion cynradd ac uwchradd

Adrannau addysg awdurdodau lleol (Iechyd a Diogelwch)

Annwyl gydweithwyr,

Ynghylch: Cynnydd yn hysbysiadau'r dwymyn goch 2018

Rydym yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi am gynnydd diweddar yn yr hysbysiadau am y dwymyn goch i Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cafwyd 476 o hysbysiadau yn ystod 8 wythnos gyntaf 2018 o gymharu â 295 yn ystod yr un cyfnod yn 2017.

Rydym yn rhoi gwybod i ysgolion a meithrinfeydd gan mai plant dan 10 oed sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan yr haint yma, ac mae achosion ohono'n gallu digwydd mewn ysgolion a meithrinfeydd. Hefyd mae plant hŷn yn gallu cael dolur gwddw streptococol yn hawdd iawn, ond efallai nad oes ganddynt frech y dwymyn goch.

Arwyddion a symptomau'r dwymyn goch

Mae'r dwymyn goch, sydd hefyd yn cael ei galw'n scarlatina weithiau, yn afiechyd heintus sy'n cael ei achosi gan facteria streptococws grŵp A (GAS – sydd hefyd yn cael ei adnabod fel pyogenes streptococws).

Mae'n hynod heintus a gellir ei ddal drwy gyswllt uniongyrchol â pherson sydd wedi'i heintio neu yn yr aer drwy ddafnau wrth i bobl beswch neu disian.

Symptom mwyaf nodweddiadol y dwymyn goch yw brech fân, pinc i goch, ar hyd y corff ac mae'n teimlo fel papur tywod o'i chyffwrdd. Ymhlith y symptomau eraill mae tymheredd uchel, wyneb coch a thafod coch wedi chwyddo.

Mae'r driniaeth yn syml ac fel rheol mae'n cynnwys cwrs o wrthfotigau penisilin.

Cymhlethdodau'r dwymyn goch

Nid yw'r rhan fwyaf o achosion o'r dwymyn goch yn achosi cymhlethdodau, yn enwedig os caiff y cyflwr ei drin yn briodol. Fodd bynnag, gall y cymhlethdodau yng nghamau cynnar yr afiechyd gynnwys haint ar y glust, crawn yn y gwddw, sinwsitis, niwmonia a llid yr ymennydd.

Ymhlith y cymhlethdodau prin iawn mae twymyn riwmatig, niwed i'r arenau, niwed i'r iau, haint ar yr esgyrn, gwenwyn yn y gwaed a syndrom sioc wenwynig, sy'n gallu peryglu bywyd.

Y camau gweithredu a argymhellir

- Dylai staff fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd o'r haint hwn mewn plant sy'n sâl gyda thymheredd uchel, dolur gwddw neu frech
- Dylid cynghori rhieni plant sâl i ofyn am gyngor meddygol i gael diagnosis a thriniaeth
- Os oes 2 achos neu fwy o'r dwymyn goch yn y sefydliad yn ystod cyfnod o 10 diwrnod, rhowch wybod i'r Tîm Amddiffyn Iechyd 0300 00 300 32 i gael cyfarwyddyd pellach
- Gall y dwymyn goch sy'n digwydd yr un pryd â **brech yr ieir neu'r ffliw** fod yn beryglus iawn – cofiwch roi gwybod am hyn i'r Tîm Amddiffyn Iechyd fel uchod
- Dylid cynghori **eithrio** o feithrinfa / ysgol / gwaith am **24 awr** ar ôl dechrau cael y driniaeth wrthfotig briodol
- Gall hylendid dwylo da ac osgoi lledu dafnau anadlol (fel y ffliw – "ei ddal, ei daflu, ei ddifa") helpu i atal lledaeniad yr haint.

Yn gywir,



Dr Gwen Lowe
Consultant in Communicable Disease Control

Deunydd Cyfeirio:

Gwybodaeth gwefan Galw Iechyd Cymru am y dwymyn goch

<https://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/encyclopaedia/s/article/scarletfever>

Gwybodaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru am y dwymyn goch

<http://howis.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/63112>

Atal a rheoli heintiau mewn lleoliadau gofal plant ac ysgolion

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/75726>

Canllawiau Public Health England ar achosion o'r dwymyn goch mewn ysgolion a meithrinfeydd

<https://www.gov.uk/government/publications/scarlet-fever-managing-outbreaks-in-schools-and-nurseries>

Atodiad: Esiampl o lythyr at rieni/gwarcheidwaid (addaswyd o ganllawiau PHE)

Annwyl riant / gwarcheidwad,

Rydym wedi cael gwybod bod criw bychan o blant sy'n mynychu ysgol / meithrinfa [] wedi cael diagnosis lle mae amheuaeth / cadarnhad o'r dwymyn goch.

Er nad yw'r dwymyn goch yn salwch difrifol fel arfer, dylid ei drin gyda gwrthfotigau er mwyn lleihau'r risg o gymhlethdodau a'i ledaenu i eraill. Mae symptomau'r dwymyn goch yn cynnwys dolur gwddw, cur pen, tymheredd uchel, teimlo'n sâl a thaflu i fyny. Wedyn ceir brech goch fân ar y corff, yn ymddangos ar y frest a'r stumog i ddechrau fel rheol, ac wedyn yn lledu'n gyflym i rannau eraill y corff. Ar groen tywyllach gyda mwy o bigment, gall y frech sgarlad fod yn anoddach ei gweld, ond dylai deimlo fel 'papur tywod'. Mae'r wyneb yn gallu bod yn goch ond yn welw o amgylch y geg.

Os ydych chi'n meddwl bod gennych chi neu eich plentyn y dwymyn goch:

- Ewch i weld eich meddyg teulu neu cysylltwch â'r GIG ar 111 cyn gynted â phosib
- Gwnewch yn siŵr eich bod chi/eich plentyn yn cymryd y cwrs llawn o wrthfotigau mae'r meddyg yn ei roi i chi
- Arhoswch gartref, o'r feithrinfa, yr ysgol neu'r gwaith, am o leiaf 24 awr ar ôl dechrau cymryd y driniaeth wrthfotig, i osgoi lledaenu'r haint.

Mae'r driniaeth yn un syml ac fel arfer mae'n cynnwys cwrs o wrthfotigau penisilin.

Cymhlethdodau

Mae plant sydd wedi cael brech yr ieir yn ddiweddar yn fwy tebygol o ddatblygu haint difrifol os bydd achos o'r dwymyn goch ac felly dylai rhieni fod yn wyladwrus iawn am symptomau fel tymheredd uchel cyson, seliwlitis (haint ar y croen) ac arthritis (poen a chwydd yn y cymalau). Os ydych chi'n bryderus am unrhyw reswm, gofynnwch am gymorth meddygol ar unwaith.

Os oes gan eich plentyn gyflwr arall sy'n effeithio ar ei system imiwnedd, dylech gysylltu â'ch meddyg teulu neu eich meddyg yn yr ysbyty i drafod a oes angen gweithredu unrhyw fesurau ychwanegol.

Yn gywir,